**Statws** This is the original version (as it was originally enacted).

# ATODLEN 5

(a gyflwynir gan adran 27(4))

## TERFYNU DRWY ORCHYMYN GYTUNDEB PARTNERIAETH HENEB GOFRESTREDIG

## RHAN 1

## HYSBYSIAD O DERFYNIAD ARFAETHEDIG

*Gofyniad i gyflwyno hysbysiad o derfyniad arfaethedig*

1 (1) Cyn gwneud gorchymyn o dan adran 27 sy'n terfynu cytundeb partneriaeth heneb gofrestredig neu ddarpariaeth mewn cytundeb o'r fath, rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno hysbysiad o gynnig i wneud y gorchymyn ("hysbysiad o derfyniad arfaethedig")—

(a) i'r partïon eraill i'r cytundeb, a

(b) i unrhyw berson arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod ganddo fuddiant yn y cytundeb.

(2) Rhaid i hysbysiad o derfyniad arfaethedig—

(a) cynnwys copi o'r gorchymyn y mae Gweinidogion Cymru yn cynnig ei wneud,

(b) nodi'r rhesymau dros y terfyniad arfaethedig,

(c) datgan bod gan y person y cyflwynir yr hysbysiad iddo 28 o ddiwrnodau, sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad, i wneud gwrthwynebiad ynghylch y cynnig i Weinidogion Cymru, a

(d) datgan y ffordd y mae rhaid i wrthwynebiad gael ei wneud.

(3) Pan mai effaith y gorchymyn y cynigir ei wneud o dan adran 27 fyddai dirymu cydsyniad heneb gofrestredig a roddwyd gan y cytundeb, rhaid i'r hysbysiad o derfyniad arfaethedig ddarparu na chaniateir i'r gwaith y mae'r cydsyniad yn ymwneud ag ef gael ei gyflawni ar ddiwrnod a bennir gan yr hysbysiad nac ar ôl y diwrnod hwnnw.

(4) Pan mai effaith gorchymyn y cynigir ei wneud o dan adran 27 fyddai eithrio unrhyw waith o gwmpas cydsyniad heneb gofrestredig a roddwyd gan y cytundeb, rhaid i'r hysbysiad o derfyniad arfaethedig ddarparu na chaniateir i'r gwaith yr effeithir arno gael ei gyflawni ar ddiwrnod a bennir gan yr hysbysiad nac ar ôl y diwrnod hwnnw.

*Effaith cyflwyno hysbysiad o derfyniad arfaethedig ar waith awdurdodedig*

2 (1) Pan fo hysbysiad o derfyniad arfaethedig yn darparu na chaniateir i'r gwaith y mae cydsyniad heneb gofrestredig yn ymwneud ag ef gael ei gyflawni ar ddiwrnod a bennir gan yr hysbysiad nac ar ôl y diwrnod hwnnw, nid yw'r gwaith hwnnw wedi ei awdurdodi at ddibenion Pennod 3 o Ran 2 o'r Ddeddf hon o ddechrau'r diwrnod hwnnw.

(2) Pan fo hysbysiad o derfyniad arfaethedig yn darparu na chaniateir i waith a bennir yn yr hysbysiad gael ei gyflawni ar ddiwrnod a bennir gan yr hysbysiad nac ar ôl y diwrnod hwnnw, nid yw'r gwaith penodedig wedi ei awdurdodi at ddibenion Pennod 3 o Ran 2 o'r Ddeddf hon o ddechrau'r diwrnod hwnnw.

(3) Mae darpariaethau blaenorol y paragraff hwn yn peidio â bod yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw waith y mae hysbysiad o derfyniad arfaethedig yn effeithio arno—

(a) pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud gorchymyn o dan adran 27 o fewn y cyfnod o 21 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y cyflwynwyd yr hysbysiad o derfyniad arfaethedig ("y cyfnod o 21 mis"), pan gaiff y gorchymyn ei wneud (a phryd hynny, mae'r awdurdodiad yn peidio i'r graddau a ddarperir yn y gorchymyn),

(b) pan fo Gweinidogion Cymru, o fewn y cyfnod o 21 mis, yn cyflwyno hysbysiad i bob person y cyflwynwyd yr hysbysiad o derfyniad arfaethedig iddo eu bod wedi penderfynu peidio â gwneud y gorchymyn, ar ddechrau'r diwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru at ddibenion y paragraff hwn yn yr hysbysiad, neu

(c) mewn unrhyw achos arall, ar ddiwedd y cyfnod o 21 mis.

## RHAN 2

## MYND YMLAEN I WNEUD GORCHYMYN AR ÔL CYFLWYNO HYSBYSIAD

*Gwneud gorchymyn o dan adran 27*

3 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo hysbysiad o derfyniad arfaethedig wedi ei gyflwyno o dan Ran 1 o'r Atodlen hon.

(2) Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y gorchymyn y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef oni bai—

(a) bod y cyfnod ar gyfer gwneud gwrthwynebiadau i'r cynnig wedi dod i ben heb i wrthwynebiad gael ei wneud gan berson y cyflwynwyd yr hysbysiad iddo,

(b) os gwnaed gwrthwynebiad gan berson o'r fath o fewn y cyfnod hwnnw, fod pob gwrthwynebiad o'r fath wedi ei dynnu'n ôl, neu

(c) os gwnaed gwrthwynebiad yn ystod y cyfnod hwnnw gan berson o'r fath ac nad yw'r gwrthwynebiad wedi ei dynnu'n ôl, fod gofynion is-baragraffau (3) a (4) wedi eu bodloni.

(3) Mae gofynion yr is-baragraff hwn wedi eu bodloni os yw Gweinidogion Cymru—

(a) yn peri i ymchwiliad lleol gael ei gynnal, neu

(b) yn rhoi i'r person a wnaeth y gwrthwynebiad gyfle i ymddangos gerbron person a benodir ganddynt a chael gwrandawiad ganddo.

(4) Mae gofynion yr is-baragraff hwn wedi eu bodloni os yw Gweinidogion Cymru—

(a) yn ystyried pob gwrthwynebiad a wnaed fel y'i disgrifir yn is-baragraff (2)(c) ac nas tynnwyd yn ôl, a

(b) os oes ymchwiliad neu wrandawiad wedi ei gynnal o dan is-baragraff (3), yn ystyried adroddiad y person a'i cynhaliodd.

(5) Pan fo person yn cymryd y cyfle i ymddangos gerbron person a benodir gan Weinidogion Cymru a chael gwrandawiad ganddo o dan is-baragraff (3)(b), rhaid i Weinidogion Cymru roi cyfle i bob un o'r personau a ganlyn i gael gwrandawiad ar yr un pryd—

(a) pob person arall y cyflwynwyd yr hysbysiad o derfyniad arfaethedig iddo, a

(b) unrhyw berson arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn briodol.

(6) Pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud gorchymyn o dan adran 27 yn rhinwedd is-baragraff (2)(a) neu (b), rhaid gwneud y gorchymyn ar y telerau a nodir gan yr hysbysiad o derfyniad arfaethedig.

(7) Pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud gorchymyn o dan adran 27 yn rhinwedd is-baragraff (2)(c), caniateir gwneud y gorchymyn naill ai ar y telerau a nodir gan yr hysbysiad o derfyniad arfaethedig neu gydag addasiadau.

*Hysbysiad ar ôl gwneud gorchymyn*

4 Cyn gynted ag y bo’n ymarferol ar ôl gwneud gorchymyn o dan adran 27, rhaid i Weinidogion Cymru anfon copi o’r gorchymyn—

(a) at bob person y cyflwynwyd hysbysiad o derfyniad arfaethedig iddo, a

(b) pan—

(i) bo ymchwiliad wedi ei gynnal o dan baragraff 3(3)(a), at unrhyw berson arall a roddodd dystiolaeth yn yr ymchwiliad, neu

(ii) bo gwrandawiad wedi ei gynnal o dan baragraff 3(3)(b), at unrhyw berson arall y rhoddwyd y cyfle iddo i ymddangos yn y gwrandawiad.

## RHAN 3

## ATODOL

*Y weithdrefn ar ôl gwrandawiad neu ymchwiliad*

5 (1) Rhaid i’r person a benodir i gynnal gwrandawiad neu ymchwiliad o dan baragraff 3 lunio adroddiad ysgrifenedig i Weinidogion Cymru ar ôl diwedd y gwrandawiad neu’r ymchwiliad.

(2) Rhaid i’r adroddiad gynnwys casgliadau ac argymhelliad y person a benodir ynghylch a ddylid gwneud gorchymyn o dan adran 27 (neu resymau’r person a benodir dros beidio â gwneud argymhelliad).